# Cofnodion
# **Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd**
# 8 Mehefin 2023 (ar-lein)

**1. Yn bresennol:**
Mark Isherwood AS (Cadeirydd), Megan Thomas (Ysgrifennydd), Shaun Bendle, Kat Watkins, Rhian Davies, David Rowlands, Ross Thomas, Cari Jones, Rebecca Phillips, Owen Williams, Trevor Palmer, Marg McNeil, Joe Powell, Andrea Boyce, Tracey Blockwell, Becky Ricketts, Petra Kennady, Teresa Carberry, Amanda Say, Chris Dunn, Jan Thomas, Christine Stewart, Gareth Marshall, Shahd Zorob, Kelly Stuart, William Fawcett, Hilary McClean (Capsiynydd).

**2. Ymddiheuriadau:**

Gary Simpson, Rhys Ab Owen AS, Llyr Gruffydd AS, Jenny Caroll, Peredur Owen Griffiths AS, Joanna Fashan, Faye Patton, Jessica Laimann, Andrea Gordon

**3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2023**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac yn wir.

**Cynigiwyd gan**: Marg McNeil
**Eiliwyd gan:** Owen Williams

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

Dywedodd Cari Jones fod grŵp mynediad yn cael ei sefydlu yn ardal Gŵyr a allai helpu'r broses o fwydo gwybodaeth i *See Around Britain*.

Yn ogystal, gofynnodd Cari sut y byddai modd iddi ymuno â'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl. Ymatebodd Megan, gan ddweud

wrth Cari mai’r Gweinidog sy’n penodi aelodau i’r Tasglu Hawliau Pobl Anabl, ond bod modd i bobl wneud cais i ymuno ag is-grwpiau’r tasglu. Bydd Megan yn rhannu rhestr o is-grwpiau’r tasglu â Cari.

**See Around Britain**

Gofynnodd Marg McNeil am y wybodaeth ddiweddaraf gan Mark Isherwood AS ynghylch y llythyr a anfonwyd at swyddfa'r Tywysog William.

Dywedodd Mark Isherwood AS ei fod yn parhau i aros am ymateb, a bod Archesgob Cymru wedi ysgrifennu at swyddfa'r Tywysog William i'w gefnogi. Bydd hefyd yn codi materion ynghylch *See Around Britain* gyda changen Ynysoedd Prydain a Rhanbarth Môr y Canoldir o Grŵp Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau, a chyda Grŵp Anabledd y Ceidwadwyr.

Dywedodd Marg McNeil wrth y grŵp fod *See Around Britain* yn ceisio comisiynu cyfres deledu yng Nghymru. Gofynnodd Marg a fyddai modd i Mark Isherwood AS a Sioned Williams AS gefnogi hyn ar ran y grŵp trawsbleidiol, gan gyfathrebu ar y cyd â’r tri golygydd sy’n comisiynu, sef golygyddion y BBC, ITV ac S4C.

Gofynnodd Mark Isherwood AS i Marg annog Zoe Richards (Anableddau Dysgu Cymru) i fwrw ymlaen â hyn.

**Hyfforddi Swyddogion Adsefydlu/Sefydlu Newydd yng Nghymru**

Rhoddodd Owen Williams y newyddion diweddaraf i'r grŵp. Nododd fod cynnydd yn cael ei wneud o ran ceisio cyllid ar gyfer hyfforddi arbenigwyr newydd ym maes adfer gweledol yng Nghymru, a bydd yn adrodd yn ôl ar y mater yng nghyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol.

## 5. Diweddariad gan yr Ysgrifennydd

Bydd cyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol yn gyfarfod hybrid. Bydd hyn yn caniatáu i aelodau gymryd rhan wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd ac ar-lein.

## 6. Diweddariad gan y Cadeirydd

Gan gyfeirio at yr eitem yn y cofnodion blaenorol ynghylch yr Adran Gwaith a Phensiynau, dywedodd Mark Isherwood AS wrth y grŵp ei fod wedi ysgrifennu at Drysorlys Llywodraeth y DU rai misoedd yn ôl, a bod y Trysorlys wedi trosglwyddo'r llythyr i'r Adran Gwaith a Phensiynau i'w ateb.

Mae ymateb wedi dod i law, ac mae'r adran wedi cynnig anfon swyddogion i un o gyfarfodydd y grŵp trawsbleidiol. Bydd yr Ysgrifennydd yn gwneud trefniadau parthed y mater hwn ar gyfer y cyfarfod nesaf, a gynhelir ym mis Medi.

## 7. CYFLWYNIAD: Yr Hawl i Dai Digonol – David Rowlands, Tai Pawb.

Agorodd David ei gyflwyniad drwy sôn am y cefndir i'r Hawl i Dai Digonol, sy'n seiliedig ar Gyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Er bod y DU wedi ymrwymo i'r cyfamod hwn, nid yw wedi'i ymgorffori. Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i'w ymgorffori'n llawn, a fydd yn golygu y bydd gofyn iddi wireddu'r hawl i dai digonol i bob dinesydd yng Nghymru.

Mae ymgyrch Back the Bill, a sefydlwyd yn 2019, yn glymblaid rhwng Tai Pawb, Sefydliad Tai Siartredig Cymru a Shelter Cymru. Mae'r sefydliadau hyn o'r farn y dylai fod gan bawb hawl i gael cartref diogel ac addas y gallant ei fforddio.

Mae canlyniadau gwaith dadansoddi ar gostau a buddion yn dangos y byddai cyflwyno'r hawl i dai digonol yng

Nghymru dros gyfnod o 30 mlynedd yn arwain at fuddion gwerth £11.5 biliwn a chostau gwerth £5 biliwn.

O ran anabledd, mae prinder cronig o dai hygyrch. Yn ogystal, mae problemau ynghlwm wrth y broses o ddyrannu tai cymdeithasol, ac mae'r system addasu yn aneffeithiol.

Mae'r gwahaniaeth y gall ei wneud ar gyfer pobl anabl yn cynnwys y canlynol:

- Blaenoriaethu cyllid a ffocws
- Fframwaith ar gyfer cartrefi gwell i bawb
- Hygyrchedd – cydrannau allweddol
- Cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau
- Methiant o ran sicrhau cynnydd: torri'r rhwymedigaeth o ran gwireddu cynyddol
- Byddai angen i Weinidogion nodi'n glir sut y maent wedi rhoi ystyriaeth briodol i hawl pobl anabl i dai
- Gall pobl anabl ddefnyddio'r hawl i ddwyn Gweinidogion i gyfrif
- Yn dibynnu ar y model, byddai person anabl yn gallu dwyn achos barnwrol am fynd yn groes i'r hawl i dai

**Ross Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Tai Pawb**

Rhoddodd Ross ddiweddariad deddfwriaethol ynghylch yr ymgyrch, sydd wedi mynd o nerth i nerth yn sgil cyfranogiad cynyddol ymhlith rhanddeiliaid a chefnogaeth gwleidyddion ar draws y sbectrwm. Mae'r hawl i dai digonol wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu a'r cytundeb cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn 2021 ar ffurf addewid i gyhoeddi Papur Gwyrdd a Phapur Gwyn.

Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i'r hawl i dai digonol. Disgwylir y casgliadau yn

fuan, ac yn dilyn hynny argymhellion, ac yna dadl yn y Senedd.

Mae'r Papur Gwyrdd wedi'i gyhoeddi, gyda'r ymgynghoriad arno ar agor hyd nes canol mis Medi.

**8. CYFLWYNIAD: Treuliau sy'n Gysylltiedig ag Anabledd – Cari Jones**

Soniodd Cari am y grŵp ar gyfer rhoi'r gorau i daliadau gofal (*Scrap Care Charges group*), sy'n glymblaid o sefydliadau pobl anabl, rhieni, gofalwyr a chynghreiriaid sy'n rhoi cymorth ac arweiniad o ran adhawlio treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd.

Mae'r grŵp hwn wedi'i leoli yn Lloegr, ac felly cafodd ei greu ar sail y Ddeddf Gofal. Hoffai Cari gyflwyno gwasanaeth cyfatebol yng Nghymru, a fyddai'n seiliedig ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Cynigiodd Cari fod gweithgor yn cael ei sefydlu i drafod y mater hwn ymhellach.

Cytunodd Megan Thomas i wneud gwaith dilynol ar y mater.

**9. CYFLWYNIAD: Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal – Shaun Bendle**

Mae Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal yn rhaglen fentora ar gyfer cymunedau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol ledled Cymru. Nod y rhaglen yw cynyddu amrywiaeth o ran cynrychiolaeth mewn bywyd cyhoeddus a bywyd gwleidyddol yng Nghymru.

Caiff y rhaglen ei hariannu'n bennaf gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru. Bydd y rhaglen yn cael ei lansio ym mis Hydref 2023, a bydd yn cael ei chynnal tan fis Mehefin 2024.

Mae hon yn rhaglen bartneriaeth a gynhelir gan Anabledd Cymru, Stonewall Cymru, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, a Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru.

Pwy all wneud cais am y rhaglen? Unrhyw berson 18+ oed sy’n byw yng Nghymru ac sy’n nodi eu bod:

- yn berson du, Asiaidd neu leiafrif ethnig
- yn berson o'r gymuned LGBTQ+
- yn berson anabl
- yn fenyw
- yn destun unrhyw gyfuniad o'r hunaniaethau hynny

Rhaid bod gan ymgeiswyr ddiddordeb mewn ehangu eu heffaith ar fywyd cyhoeddus neu fywyd gwleidyddol ac ymrwymiad i'w datblygiad personol.

Mae’r cynllun yn cynnwys:

- Mentora un i un
- Sesiynau hyfforddi
- Cefnogaeth gan gymheiriaid

**10. Unrhyw fater arall**

Dywedodd Mark Isherwood AS wrth y grŵp fod un o’i rolau yn y Senedd yn cynnwys cadeirio’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Nododd mai un darn o waith y mae’r Pwyllgor yn ei wneud ar hyn o bryd yw cynnal ymchwiliad i benodiadau cyhoeddus.

Ddoe, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar gofnod gan Daniel Bridgeman, a ddatganodd yn gyhoeddus fod ganddo barlys yr ymennydd a’i fod wedi brwydro’r rhwystrau cysylltiedig, ac wedi llwyddo i gael rolau ar wahanol gyrff cyhoeddus.

Soniodd am y rhwystrau yr oedd wedi dod ar eu traws, a'r hyn y mae pobl anabl yn gyffredinol yn dod ar ei draws, sy'n rhan fawr iawn o ymchwiliad y Pwyllgor.

Gwnaeth Mark Isherwood AS wahodd y grŵp i ddarllen cofnod o'r cyfarfod ar wefan y Senedd, sef trawsgrifiad llawn o'r hyn a ddywedodd Daniel Bridgeman.

Dywedodd Mark Isherwood AS ei fod wedi arwain dadl arall yn cynnig bod y Senedd yn cefnogi Bil ynghylch Iaith Arwyddion Prydain. Unwaith eto, enillodd bleidleisiau yn y tymor hwn a'r tymor diwethaf. Fodd bynnag, mae angen iddo ennill balot er mwyn cael cyfle i gyflwyno Bil Aelod cyn y gall fynd â'r broses hon ymhellach.

**CAMAU I'W CYMRYD**

1. Megan i rannu rhestr o is-grwpiau'r tasglu â Cari.
2. Megan i wneud gwaith dilynol ar y grŵp *Scrap Care Charges* gyda'r nod o gyflwyno rhywbeth cyfatebol yng Nghymru.